Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanddeiniolen 6ed Hydref 2026

Croeso a Gweddi - Rhoddwyd Croeso gan Gadeirydd, Gareth Hughes a gair o weddi gan y Parch. Idris Thomas

Presennol

Y Cadeirydd, Gareth Hughes ynghyd a'r Cynghorwyr, Elwyn Jones, Jane Pierce, Elen George, Idris Thomas, Rhian Evans-Hill, Emma Chappell, a Berwyn Parry Jones. Bu I Lowri methu a chysylltu ar y linc rithiol.

Ymddiheuriadau

Sasha Williams, Lowri James, Gareth Griffiths.

Datgan Buddiant

Gweler ffurflenni ar ddatgan yn seiliedig ar roddion ariannol.

Tyddyn Teg

Pleser oedd gwahodd Conna Scrase I'n plith. Mae Conna yn un o gyfarwyddwyr a gweithiwr yn Nhyddyn Teg. Mae yn gwmni cydweithredol sydd yn tyfu llysiau yn Dyddyn Berth, ger Bethel. Cyflwynodd Conna amlinelliad o beth mae Tyddyn teg yn ei wneud ar hyn o bryd, sef pobi Bara a siop fferm lle maent yn gwerthu bocsys llysiau yn wythnosol I gwsmeriaid. Ar hyn o bryd maent yn cyflogi 13 o weithwyr.

Yn ddiweddar mae'r cwmni wedi cael cymorth grant gan y Loteri Genedlaethol I greu Cynllun Coedwigaeth. Bydd hyn yn cynnwys gwella mynediad i bobl o'r gymuned. Esboniodd fod oddeutu 13 acer i'r fferm, a bod tua 3 acer heb ei datblygu eto, a'r gobaith ydi datblygu'r aceri yma trwy blannu coed ffrwythau, afalau, eirin a chnau. Maent hefyd yn bwriadu codi caban addysgu un llawr, at ddibenion hyfforddiant, cyfarfodydd a lles, ynghyd a Gwaith cysylltiedig megis waliau a mynediad. Y gobaith hefyd yw cydweithio gyda'r Cyngor Sir, Cyngor Cymuned a grwpiau cerdded i wella'r llwybrau sydd yn mynd trwy'r tir.

Maent wedi cyflwyno cais cynllunio ar gyfer hyn yn ddiweddar.Bu sgwrs ddifyr yn Dilyn am sawl peth ond yn benodol am y gordyfiant o'r coed a'r brwyn i'r ffordd rhwng Bethel a ffordd Crawiau. Nodwyd fod y Cyngor Cymuned wedi ceisio cysylltu sawl gwaith a'r cwmni i geisio cael torri nôl y gordyfiant, ac wedi cysylltu â'r Cyngor Sir. Nodwyd fod yn rhaid i'r cwmni gymryd cyfrifoldeb am hyn, fel pob ffermwr arall cyfagos. Mae Conna am sicrhau fod hyn yn mynd i gael sylw yn ystod y mis nesaf.Diolchodd y cadeirydd iddo am ddod, gan obeithio bydd yna gyd weithio da yn y dyfodol.

Cofnodion Cyfarfod y 1af Fedi 2026

Cafwyd y Cofnodion yn gywir a nodwyd fod yr holl benderfyniadau wedi eu gwneud yn unfryd gan Y Cyngor:

Jane Pierce (1) Idris Thomas 1708 (2)

Materion o'r Cofnodion

Clybiau Ieuenctid **-** Derbyniwyd nodyn gan y swyddog am sefyllfa'r clybiau'r plwyf. Mae Deiniolen yn mynd yn dda gyda niferoedd rheolaidd yn mynychu. Mae niferoedd Rhiwlas wedi codi I 6, search hynny, mae angen mwy. Byddwn yn gobeithio cynyddu niferoedd dros yr wythnos nesaf.Roedd hysbyseb am bobl i redeg y clwb ym Methel, nid oes neb wedi dod ymlaen hyd yn hyn, ac mae'r hysbyseb swyddi wedi cael ei ymestyn.

Gohebiaeth a Materion Eraill

Lloches Tai Croesion Penisa'r-waun - Yn ystod y cyfarfod, daeth aelod o'r cyhoedd a llythyr ynghyd a deiseb am gais i gael lloches bws ger Tai Croesion. Nid yw'r Cyngor Cymuned erioed wedi cael cais am loches bws yn unman ym Mhenisa'r-waun o'r blaen. Fodd bynnag, bydd y clerc yn cysylltu â Chyngor Gwynedd I weld os oes posib rhoi lloches yn yr ardal yma o'r pentref, cyn mentro ddim pellach.

Goleuadau Nadolig - Yn dilyn llythyr a ddaeth i law o un pentref, nodwyd and oedd y Cyngor yn ariannu hyn o gyllideb y Cyngor. Fodd bynnag, buasai cais trwy fudiad gwirfoddol o fewn y pentrefi yn gallu ei gyflwyno i'r Cyngor ar amser penodol rhoddion, a chan ddilyn canllawiau a rheolau Rhoddion Ariannol Cyngor Cymuned Llanddeiniolen.

Cynllunio

Dyma'r ceisiadau a dderbyniwyd:

C26/0571/18/LL - Tyddyn Berth, Bethel

Cais Cynllunio I godi caban addysgu un llawr ffrâm bren, gan gynnwys ardal decing wedi'i.

orchuddio a ramp mynediadau hygyrch, at ddibenion addysg gymunedol, hyfforddiant, cyfarfodydd a lles, ynghyd a gwaith cysylltiedig. Dim Gwrthwynebiad

C26/0525/18/DT - Rhos Aeron, Seion

Codi estyniad un llawr a balconi, ynghyd ag addasiadau cysylltiedig. Dim Gwrthwynebiad.

C26/0542/18/HY - Amgueddfa Llechi, Llanberis

Uwchraddio'r arwyddion a'r dehongli ar draws y safle i gyd. Dim Gwrthwynebiad.

Llwybrau

Mae'n Ymddangos fod swyddogion adran llwybrau eisoes wedi trafod am lwybrau Tyddyn Berth a'r llwybr o Eglwys Llanddeiniolen gyda'r perchnogion. Yn y gorffennol, er ein bod wedi trio gwella'r llwybrau yma, roedd gwartheg ar ran o'r tir a thir gwlyb ofnadwy ac roedd hwn lawr fel un llwybr i geisio cael grant i wella. Mae'n ymddangos hefyd fod sawl grŵp cerdded wedi dangos diddordeb i helpu i wella'r llwybrau. Bydd y clerc yn cysylltu ymhellach a'r swyddogion yng Nghyngor Gwynedd.

Mae swyddog hefyd wedi bod allan yn ymweld â'r llwybr o Ros Wian I Waun. Mae rhan o hwn lle mae dŵr neu afon fechan yn rhedeg ac mae'r llwybr yn cael ei guddio o dan wyneb y dŵr. Awgrymwyd I roi ychydig o gledrau haearn uwchben y tir. Y clerc i siarad gyda swyddog.

Mae cadarnhad wedi ei roi hefyd i ail osod arwyddion ar y llwybr ger Tai Arthur ym Mhenisarwaun.

Rhoddion Ariannol

Derbyniwyd 19 o geisiadau eleni. O'r ceisiadau yma nodwyd fod 13 wedi cydymffurfio a gofynion y rheolau. Derbyniwyd hyn yn gytûn gan yr aelodau a oedd yn bresennol. Dyma restr o roddion fydd yn cael ei didoli eleni:

Clwb Bowlio Dan do Bethel	350.00
Clwb Bro Bethel	350.00
Eisteddfod Bethel	350.00
Clwb Snwcer Bethel	350.00
Pwyllgor Pentra Deiniolen	500.00
Clwb Snwcer Deiniolen	350.00
Neuadd Gymuned Penisa'r-waun	500.00
Cyfeillion Rhiwlas	350.00
Clwb Crefft Rhiwlas	350.00
Clwb Rhiwen	350.00

Neuadd Bentref Rhiwlas	500.00
Eco'r Wyddfa	350.00
Eisteddfod Penisa'r-waun	350.00
Cyfanswm	**5000.00**

Cadarnhau Taliadau:

Derbyniwyd y taliadau ar y rhestr, Cytunwyd yn unfryd ac arwyddwyd gan y Cadeirydd, a chadeirydd yr is Bwyllgor Cyllid.

O Gwmpas y Bwrdd

Deiniolen a Rhiwlas

Llinellau Gwyn angen eu peintio yn y groesfan Lon Garnedd a Ffordd Deiniol, ynghyd a sawl cyffordd yn Rhiwlas. Y clerc wedi cysylltu â'r Cyngor, am yrru unwaith eto.

Ffordd tabernacl Deiniolen

Mae angen rhoi cais I Gyngor Gwynedd ail wynebu hon i gyd. Mae'r ffordd yn dyllau mawr, ac yn sobor o beryg. Mae sawl person yn cerdded ar hyd y ffordd yma, gan gynnwys rhieni yn cerdded gyda phlant bach am yr ysgol.

Brynrefail

Mynedfa o Drem Eilian I'r ffordd fawr ym Mrynrefail. Amhosib gweld os oes cerbydau yn dod ac angen rhoi cais I Gyngor Gwynedd tocio coed a Gwrych yn ôl.

Y Bont ar y Ffordd heibio Maes Chwarae. Roedd cais eisoes wedi ei wneud er mwyn cael llinellau melyn gan fod ceir a faniau yn parcio yno, ac wrth wneud hynny yn atal y bws i allu mynd drwy'r pentref. Mae cais ymhellach wedi ei wneud gan gwtogi ychydig ar y llinellau melyn. Pawb yn gytûn ac yn derbyn yr argymhelliad. Y clerc i gysylltu ag adran y cyngor i gadarnhau.